# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **16 Chwefror 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Wyn Williams - Pennaeth Adran yr Amgylchedd** |
| **Rhif Cyswllt:** | **32371** |
| **Pwnc:** | **CYNLLUN BRYS AR GYFER BYSIAU (BES)** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i ymuno a Chynllun BES2 yn unol â'r adroddiad.

Fod hawl dirprwyedig yn cael ei roi i Pennaeth Amgylchedd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno a chwblhau Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol Gwirfoddol ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith yng Ngogledd Cymru.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar deithio ar fysiau. Mae nifer y teithwyr wedi gostwng yn aruthrol, tra bod pellhau cymdeithasol a gofynion glanhau ychwanegol wedi cynyddu baich a chostau'r gweithredwyr. [2]

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) ac awdurdodau lleol (ALl) wedi camu mewn i gefnogi'r sector gyda chymorth ariannol sylweddol. Mae deialog ragorol wedi bod rhwng yr holl bartïon wrth drafod a chytuno ar drefniadau cefnogi ac mae hynny'n dal i barhau. [3]

Cyn y pandemig, ymgynghorodd LlC ar amrediad o newidiadau arfaethedig i'r ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yng Nghymru. Roedd bwriad i Ddeddf Bysiau gael ei chyflwyno yn ystod tymor presennol y Senedd. Gorfodwyd LlC i ohirio'r ddeddfwriaeth hon nid yn unig oherwydd Covid, ond hefyd oherwydd pwysau yn sgil y swmp mawr o waith cyfreithiol oedd yn gysylltiedig â Brexit a'r cyfnod trosglwyddo. [4]

Oherwydd y swm mawr o arian cyhoeddus y mae LlC ac ALl yn ei wario ar wasanaethau bws, dymuna LlC weld y sector cyhoeddus yn cael mwy o ddylanwad ar feysydd megis y rhwydweithiau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, y drefn docynnau a'r modd y mae'n integreiddio gyda gwasanaethau rheilffordd. Mae hefyd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i Trafnidiaeth Cymru, sydd bellach yn gyfrifol am wasanaethau rheilffordd yng Nghymru. [5]

Mae hyn yn codi dau fater: (i) parhad gweithredwyr yn y byrdymor a (ii) diwygio'r sector yn yr hirdymor. Cred LlC y gellir cysylltu'r ddau. Yn y byrdymor, mae'r arian a roddir i gadw'r gweithredwyr mewn busnes felly'n cael ei ddarparu gyda nifer o amodau cysylltiedig. Bwriad rhain yw cymell gweithredwyr i gydio yn y newidiadau arfaethedig sydd yn unol â'r uchelgais hirdymor i ddiwygio. [6]

Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS, a'i swyddogion, wedi cyfarfod ag Arweinyddion y 22 ALl i amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad. Yn fwy diweddar, bu i'r Dirprwy Weinidog, Lee Waters AS, gyfarfod ag Arweinyddion i drafod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a hefyd i annog ALl i ymuno â'r Ail Gynllun Brys ar gyfer Bysiau (BES2). Dyma wedd ddiweddaraf y gefnogaeth ariannol i helpu gweithredwyr trwy gyfnod y pandemig (ceir mwy o fanylion am BES 2 isod). [7]

Mae'r arweinyddion wedi cytuno i sefydlu Grŵp Aelodau Bysiau CLlLC, gan ganolbwyntio ar gynigion mwy hirdymor i ddiwygio gweithrediadau'r sector. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Arweinydd CLlLC (sydd hefyd yn Llefarydd Trafnidiaeth CLlC), y dirprwy Lefarydd Trafnidiaeth, cadeiryddion y pedwar corff trafnidiaeth rhanbarthol a chyd-gadeiryddion Fforwm Gwledig CLlLC. Bydd y Grŵp Aelodau hwn yn cyfarfod gyda Lee Waters ar 18 Ionawr 2021. [8]

---

**CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**1. CEFNDIR**

1.1 Cydnabuwyd y problemau yr oedd gweithredwyr bysiau yn eu hwynebu yn gynnar yn y pandemig. I sicrhau eu gwasanaethau i'r dyfodol, cytunodd awdurdodau lleol i barhau i dalu am wasanaethau oedd wedi'u contractio er bod nifer o wasanaethau wedi cael eu gohirio ar y dechrau.

1.2 Yn ogystal â hyn, camodd LlC i mewn i helpu gweithredwyr bysiau i ymdopi â llai o incwm ar lwybrau sy'n cael eu gweithredu'n fasnachol. Yn y lle cyntaf, rhyddhaodd LlC £29m o Gronfa Galedi, oedd yn weithredol o fis Ebrill 2020 am dri mis. Crëwyd y Gronfa hon o arian fyddai fel arall wedi cael ei ddyrannu trwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau, yr ad-daliad ar y pris siwrnai consesiynol gorfodol a'r cynllun 'Fy Ngherdyn Teithio'.

1.3 Cyflwynwyd y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau ym mis Gorffennaf i ddarparu cefnogaeth barhaus. Fe'i galwyd yn BES 1 ac fe barhaodd i gynnal incwm gweithredwyr bysiau ar lefelau hanesyddol, yn seiliedig ar yr arian yr oeddynt yn ei dderbyn dan gynlluniau grant blaenorol. Yn gyfnewid am y gefnogaeth ariannol, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl i weithredwyr bysiau gyfrannu at ailwampio gwasanaethau bysiau yng Nghymru - i gynnwys rhwydweithiau rhanbarthol gwell sydd wedi'u hintegreiddio mwy gyda gwasanaethau rheilffordd, tocynnau clyfar ac amserlennu teithiau.

1.4 Cyflwynwyd BES 1.5 ym mis Awst, wedi'i weinyddu gan yr Awdurdodau arweiniol (Sir y Fflint) oedd wedi bod yn gyfrifol am weinyddu taliadau BSSG ers 2013. Roedd yn darparu £10m i ariannu mwy o wasanaethau i gefnogi ailagor ysgolion a gweithgarwch economaidd. Roedd yr arian hwn yn helpu i dalu am gostau ailgyflwyno'r gwasanaethau a gafodd eu gohirio pan gyflwynwyd cyfyngiadau teithio yn sgil y pandemig, ac a oedd yn angenrheidiol i ddiwallu'r cynnydd mewn galw, gan gofio fod cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar gapasiti. Cafodd BES 1.5 ei ymestyn hyd ddiwedd mis Mawrth 2021 yn dilyn cyhoeddi pecyn cefnogaeth arall ym mis Medi 2020[1]. Gofynnwyd unwaith yn rhagor i weithredwyr bysiau ymrwymo i amrediad o delerau ac amodau i gael mynediad i arian BES. Heb yr arian hwn, byddai rhai gwasanaethau o bosib wedi dod i ben yn sgil colli refeniw a ddaw i law drwy redeg teithiau.

---

1.5 Mae LlC, ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, bellach yn cynnig llunio cytundeb BES 2 hirdymor gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol i warchod gwasanaethau. Bydd yn gweithredu am gyfnod cychwynnol o ddim hwy na 2 flynedd o ddyddiad dechrau BES 1.5 (h.y. hyd at 31 Gorffennaf 2022), oni bai y bydd cyflwr y farchnad yn adfer ddigon fel nad yw'r gweithredwr angen cefnogaeth BES ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau boed hwy'n rhai dan gontract neu'n rhai masnachol.

**NODWEDDION ALLWEDDOL BES2**

1.6 Bydd BES 2 yn parhau i roi sylw i golli refeniw tocynnau a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r pandemig. Dan BES 2, bydd arian LlC yn bodoli ar y cyd ag arian gan awdurdodau lleol a ddarperir trwy'r Cynllun Disgownt Teithio a'r Grant Cefnogaeth Refeniw a'r Grant Cefnogi Gwasanaethau Bysiau i gau'r bwlch.

1.7 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyd-lofnodi'r cytundeb BES 2 gyda'r gweithredwyr bysiau, yn ogystal â Thrafnidiaeth Cymru[2]. Mae'r Awdurdodau Lleol yn cadw'r cyfrifoldebau cyfreithiol am wasanaethau bws ac felly'n parhau'n ganolog wrth benderfynu pa wasanaethau lleol sy'n derbyn y gefnogaeth hon. Mae angen iddynt ymrwymo i egwyddor y cytundeb a'r berthynas gyda'u Hawdurdod Arweiniol, i sicrhau bod yr arian brys yn diwallu eu blaenoriaethau ac yn cael ei ddarparu ar eu rhan. Bydd hyn yn creu'r sail gyfreithiol i LlC dalu'r gweithredwyr. **Fel hyn, gall LlC ddefnyddio ei phwerau i gefnogi gweithredwyr, tra byddai'r arian ychwanegol yn torri cyfyngiadau de minimis awdurdodau lleol ar gyfer cyflwyno contractau'n uniongyrchol** (ceir mwy o fanylion yn y nodyn briffio yn Atodiad 1 ac mae'r Cytundeb llawn arfaethedig yn Atodiad 2). Bydd Awdurdodau Lleol yn parhau'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny y maent yn eu contractio'n uniongyrchol i'r gweithredwyr bysiau. Bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried cynllunio wrth gefn os na fydd y cytundeb BES2 y cael ei lofnodi neu os caiff lefel gyllido'r BES2 ei gostwng yn ystod cyfnod y cytundeb.

1.8 Bydd prif nodweddion BES 2 fel a ganlyn:

- hyd at 31 Gorffennaf 2022 fan bellaf neu hyd nes bydd y gweithredwyr yn rhan o gytundeb partneriaeth gaeth
- datblygu a chyflwyno Rhwydwaith Gyfeiriadau, y bwriedir iddi ddarparu amrediad o fanteision i gymunedau; system docynnau aml-weithredwr; a gweithredwyr yn ymrwymo i Gontract Economaidd wrth wraidd Cynllun Gweithredu Economaidd LlC (a'i egwyddorion o waith teg, iechyd, datgarboneiddio, sgiliau a dysgu ac ati). Ar hyn o bryd yng Ngwynedd, os yw person wedi prynu tocyn dychwelyd neu wedi talu ymlaen llaw am docyn ar lwybr sy'n derbyn cymorth ariannol, nid oes modd i'r person hwnnw ddefnyddio'r tocyn ar lwybrau masnachol ac mae'r un peth yn wir i'r gwrthwyneb.
- cydweithio a chydlynu hirdymor ar draws Trafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a gweithredwyr drwy ymrwymo i bartneriaeth gyda chyfres glir o ymrwymiadau a safonau cyffredin.
- un cytundeb i bob gweithredwr ym mhob un o'r rhanbarthau y maent yn gweithio ynddynt, wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, yr awdurdod arweiniol a'r gweithredwr
- bydd y gweithredwyr yn cael gwneud elw (wedi'i gapio) ar wasanaethau, nid yw hyn wedi bod yn bosib dan gyllid brys hyd yn hyn.

**Y TU HWNT I BES 2**

1.9 Mae trafodaethau'n dechrau ynghylch cynllunio rhwydweithiau'r dyfodol a beth fydd rôl LlC, Trafnidiaeth Cymru, yr ALl a'r gweithredwyr. Mae'n bwysig nodi nad rhain yw prif ffocws cytundeb BES2. Bydd yn hollbwysig cynnal trafodaethau manwl pellach gydag Aelodau ar y materion hyn. Er hynny, nid yw hyn yn rheswm i oedi rhag llofnodi cytundeb BES 2. Mae LlC yn credu y bydd BES 2 yn helpu i gynnwys mwy o weithredwyr yn y trafodaethau am y dyfodol ar adeg pan mae eu hincwm yn fwy dibynnol nag erioed o'r blaen ar gefnogaeth y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, trwy ymrwymo i BES 2, mae'r ALl yn cytuno i ddarparu cefnogaeth ariannol i'r sector ond nid ydynt yn ymrwymo eu hunain i unrhyw fodel penodol arfaethedig ar gyfer rheoli gwasanaethau bysiau gan y bydd hynny'n destun trafodaeth bellach.

1.10 Mae Cyngor Gwynedd mewn trafodaethau rheolaidd gyda Thrafnidiaeth i Gymru a Llywodraeth Cymru ynglŷn â dylunio rhwydwaith bysiau newydd i Wynedd ac awdurdodau cyfagos. Uchelgais Strategaeth Trafnidiaeth Cymru – Llwybr Newydd – yw cael gwasanaeth i 'bob pentref, pob awr'. Y gobaith yw y bydd buddsoddiad BES2 yn cynnig mwy o wasanaethau i gymunedau gwledig. Mae posib i'r ddarpariaeth cludiant fod yn wahanol gan ddefnyddio cerbydau llai e.e. bws mini neu dacsi i gludo trigolion i bentrefi/trefi cyfagos a fydd yn sicrhau cysylltiadau gwell i deithio ymhellach.

**2. ARGYMHELLIAD**

2.1 Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i ymuno a Chynllun BES2 yn unol â'r adroddiad.

2.2 Fod hawl dirprwyedig yn cael ei roi i Pennaeth Amgylchedd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno a chwblhau Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol Gwirfoddol ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith yng Ngogledd Cymru.

---

[1] Mae'r awdurdod arweiniol yn gweithredu fel cyswllt ar gyfer cyllid y Grant Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bws (BSSG) rhwng Llywodraeth Cymru a'r gweithredwyr. Yr awdurdodau arweiniol ar hyn o bryd yw Sir Fynwy (ar gyfer De Ddwyrain Cymru); Sir y Fflint (ar gyfer Gogledd Cymru); Abertawe (ar gyfer De Orllewin Cymru), Ceredigion a Phowys. Ym mhob un ALl, mae staff trafnidiaeth yn chwarae rôl bwysig wrth gysylltu gyda'r gweithredwyr ar amrediad o faterion i ddiwallu gofynion Aelodau Lleol. Mae'r swyddogaethau'n cynnwys gweinyddu ad-daliad y gostyngiad consesiynol a darparu cefnogaeth i siwrneiau sydd wedi'u contractio neu lwybrau sydd ddim yn broffidiol.

[2] Gyda'i gilydd, mae LlC wedi darparu £45m yn ychwanegol i gefnogi'r sector bysiau yn y flwyddyn ariannol hon yn cynnwys y £10m o gyllid ychwanegol a £35m arall o fis Medi hyd ddiwedd y flwyddyn.

[3] Gan gofio fod y cytundeb yn cael ei drafod rhwng Llywodraeth Cymru, y gweithredwyr a Thrafnidiaeth Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol, a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan bob parti, mae'n bosib y bydd yn cael ei newid eto cyn iddo fod yn barod yn derfynol.

[4] Bydd angen i'r rhwydwaith cyfeirio gael ei ddylunio a'i gytuno gan LlC, Trafnidiaeth Cymru a'r All ar y cyd ac yna ei drafod gyda'r gweithredwyr. Mae grŵp swyddogion Rhwydwaith Bysiau Cymru wedi cael ei sefydlu i wneud cynnydd ar y mater hwn.

[5] Mae'r awdurdod arweiniol yn gweithredu fel cyswllt ar gyfer cyllid BSSG rhwng Llywodraeth Cymru a'r gweithredwyr. Yr awdurdodau arweiniol ar hyn o bryd yw Sir Fynwy (ar gyfer De Ddwyrain Cymru); Sir y Fflint (ar gyfer Gogledd Cymru); Abertawe (ar gyfer De Orllewin Cymru), Ceredigion a Phowys. Ym mhob un ALl, mae staff trafnidiaeth yn chwarae rôl bwysig wrth gysylltu gyda'r gweithredwyr ar amrediad o faterion i ddiwallu gofynion Aelodau lleol. Mae'r swyddogaethau'n cynnwys gweinyddu ad-daliad y gostyngiad consesiynol a darparu cefnogaeth i siwrneiau sydd wedi'u contractio neu lwybrau sydd ddim yn broffidiol.

[6] At ei gilydd, mae LlC wedi darparu £45m yn ychwanegol i gefnogi'r sector bysiau yn y flwyddyn ariannol hon yn cynnwys y £10m o gyllid ychwanegol a £35m arall o fis Medi hyd ddiwedd y flwyddyn.

[7] Gan gofio fod y cytundeb yn cael ei drafod rhwng Llywodraeth Cymru, y gweithredwyr a Thrafnidiaeth Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol, a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan bob parti, mae'n bosib y bydd yn cael ei newid eto cyn iddo fod yn barod yn derfynol.

[8] Bydd angen i'r rhwydwaith cyfeirio gael ei ddylunio a'i gytuno gan LlC, Trafnidiaeth Cymru a'r All ar y cyd ac yna ei drafod gyda'r gweithredwyr. Mae grŵp swyddogion Rhwydwaith Bysiau Cymru wedi cael ei sefydlu i wneud cynnydd ar y mater hwn.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r cynllun yma yn cael ei arwain gan y Llywodraeth drwy eu pwerau statudol dan Ddeddf Trafnidiaeth ( Cymru) 2006. Mae hyn yn seiliedig ar drefn partneriaeth rhanbarthol rhwng Cynghorau Gogledd Cymru a bydd angen sefydlu cytundeb priodol er gwarchod a hyrwyddo ein llais a dylanwad ar y gyfundrefn. Mae nodyn cyfreithiol a baratowyd gan y Llywodraeth yn ynghlwm a'r adroddiad sydd yn crynhoi'r cyd-destun yn briodol.

**Pennaeth Cyllid:**

Fel dywedau rhan 1.4 o'r adroddiad, mae'r grant BES1 yn cael ei weinyddu'n rhanbarthol gan Gyngor Sir y Fflint, a'r grant yn mynd yn uniongyrchol i'r gweithredwyr bysiau i'w digolledu am golled incwm a chostau ychwanegol. Mae'r cynllun BES2 yn estyniad o'r grant BES1 a bydd Fflint yn parhau i'w weinyddu.

Ar wahân i hynny, mae Gwynedd yn parhau i dderbyn grant cymorth ar gyfer gwasanaethau bws ac wedi talu'n llawn i weithredwyr bysiau cyhoeddus am y rhwydweithiau, fel pob awdurdod arall yng Nghymru, ers ddechrau'r argyfwng Covid-19.

Rwy'n gwerthfawrogi fod manteision gweithdrefnol o gytundebu'n rhanbarthol ar gyfer hyn, felly rwy'n cefnogi'r argymhelliad i Wynedd ymuno â chynllun BES2, er mwyn cefnogi'r gweithredwyr a gwarchod y gwasanaeth bysiau am gyfnod cychwynnol o ddim hwy na 2 flynedd.

Nodaf hefyd fod rhan 1.7 o'r adroddiad yn adnabod yr angen i awdurdodau lleol ystyried cynllunio wrth gefn, rhag ofn i gytundeb BES2 beidio cael ei lofnodi, neu rhag ofn fod lefel cyllido BES2 yn gostwng.

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Nodyn Briffio |
| Atodiad 2 | Cytundeb Arfaethedig |